

YSGOL DOLBADARN

Medi 2il 2015

Annwyl Rieni

Croeso yn ôl i bawb ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y dosbarth newydd a bod plant bach y Meithrin wedi mwynhau!

Dyma ychydig o newidiadau staffio eleni- croeso cynnes iawn iddynt hwythau hefyd.

Blwyddyn 3: Mrs Ceri Millington/ (Mrs Bethan Jones + Miss Davies ar ddydd Gwener).

Blwyddyn 4: Miss Ceri Davies pob bore/ Mr Gwilym yn y prynhawn ar y cyd â Blwyddyn 5.

Clwb Brecwast(Derbyn-B6)- cychwyn am 7.55 y bore a gofynnir yn garedig i rieni dywys plant y Cyfnod Sylfaen i fyny at y drws os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau diogelwch. Dim ceir os gwelwch yn dda.

Prydlondeb: Mae'r ysgol yn cychwyn am 8.45 y bore (bydd plant yn cael mynd ar y buarth o 8.35 ymlaen). **Bydd rhaid i blant sy'n cyrraedd yn hwyr gofrestru yn y swyddfa.**

Presenoldeb: Gofynnir i chwi gysylltu os yw eich plentyn yn absennol drwy ffonio neu yrru ebost i'r ysgol helenrichards@gwynedd.sch.uk (01286 870 711)

Siop Ffrwythau (Adran Iau) 30c y dydd neu £1.50 yr wythnos.

Plant Cyfnod Sylfaen : bydd angen labelu a thorri ffrwyth ar gyfer y plant.

Llefrith: 10 c y dydd i'r Adran Iau neu (Tymor 1 £7.30/Tymor 2 £5.40/Tymor 3 £6.50)

Cinio Ysgol £2.20 y dydd– arian ar ddydd Llun mewn amlen gydag enw + dosbarth y plentyn arno os gwelwch yn dda. (Siec cinio yn daladwy i 'Cyngor Gwynedd'). Gallwch roi yr amlenni arian i'ch plentyn i'w roi i'r athro dobarth yn y bore- peidiwch â gadael arian yn y swyddfa os gwelwch yn dda.

Lloches: Mae lloches llyfr ar gael o'r ysgol am £4- mae rhain ar gyfer llyfrau darllen, gwaith cartref a llythyrau i fynd adref.

Bydd llythyr gyda manylion y Thema yn dilyn yr wythnos nesaf ond dyma ddyddiau

Addysg Gorfforol.

Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4+5	Blwyddyn 6
Dydd Mercher	Dydd Gwener	Dydd Iau	Dydd Gwener Dydd Mercher (Tenis) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.	Dydd Mawrth Dydd Mercher (Chwaraeon) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.	Dydd Llun Dydd Mercher (Nofio) Bws £1.50 yr wythnos neu £10.50 at hanner tymor.

Mae'n hanfodol gwisgo Crys T a siorts ar gyfer gwersi os gwelwch yn dda.

Rhai dyddiadau i'w nodi yn y dyddiadur.

Bingo Medi 25ain 2015 Gwesty Dolbadarn

DIOGELWCH: Gofynnwn yn garedig i rieni sicrhau diogelwch holl blant yr ysgol drwy beidio gyrru ceir ar dir yr ysgol na pharcio ar y llinellau melyn ar waelod yr allt os gwelwch yn dda. Diolch o galon am eich cyd-weithrediad. Dymunaf y gorau i'ch plentyn yn ystod y Tymor ac edrychaf ymlaen i gyfarfod rhieni newydd yr ysgol.

Bethan Wyn Jones